**Sesiwn 2001-2002 (20)**

**Dydd Iau, 19 Gorffennaf 2001**

# PLEIDLEISIAU A THRAFODION

**Dechreuodd y Cyfarfod am 9.05am**

**Arweiniodd y Llywydd deyrngedau coffa i Val Feld AC**

**Rhoddodd y Llywydd wybod i'r Cynulliad bod llythyr o gydymdeimlad wedi'i dderbyn gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Byddai cynnwys y llythyr yn cael ei ychwanegu at ddiwedd y pleidleisiau a'r trafodion.**

**Cynigiodd y Llywydd y dylai'r cyfarfod dorri hyd 10.30am.**

**10.30am**
**Ailymgynnull**

**Rhoddodd y Llywydd wybod i'r Cynulliad bod llythyr o gydymdeimlad wedi'i dderbyn gan Gynullydd Pwyllgor Ewropeaidd Senedd yr Alban. Byddai cynnwys y llythyr yn cael ei ychwanegu at ddiwedd y pleidleisiau a'r trafodion.**

**Cyhoeddodd y Llywydd fod sedd Etholaeth Dwyrain Abertawe yn y Cynulliad yn wag o dan Reol Sefydlog 3.6 ac Adran 8 Deddf Llywodraeth Cymru.**

**10.31am**
**Cynigiodd y Trefnydd gynnig heb ddyddiad trafod a gyflwynwyd ar 18 Gorffennaf o dan Reol Sefydlog 34.4 i atal Rheol Sefydlog 6.3 mewn perthynas â chwestiynau a gyflwynwyd i'w hateb heddiw fel bod modd eu hateb mor fuan â phosibl wedi'r Toriad.**

*NNDM774 Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*
O dan Reol Sefydlog 34.4, yn atal Rheol Sefydlog 6.3 mewn perthynas â’r cwestiynau a gyflwynwyd i’w hateb heddiw, fel y cânt eu hateb cyn gynted ag y bo modd ar ôl toriad yr haf.

**Cynhaliwyd pleidlais:**

O blaid 44; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 44

**Derbyniwyd y cynnig â'r mwyafrif angenrheidiol o ddwy ran o dair**

**10.32am**
**Cynigiodd y Trefnydd Gynnig Trefniadol o dan Reol Sefydlog 6.16 i ohirio'r eitemau canlynol o fusnes:**

Eitem 9 - Dadl ar Araith y Frenhines

Eitem 11 - Dadl ar ymdrin â chontract Canolfan y Mileniwm

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig trefniadol:**

O blaid 46; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 46

**Derbyniwyd y cynnig trefniadol**

**Eitem 1** *wedi'i gohirio*
**Cwestiynau i Jenny Randerson, y Gweinidog dros Ddiwylliant a Chwaraeon**

**Eitem 2** *wedi'i gohirio*
**Cwestiynau i Carwyn Jones, y Gweinidog dros Faterion Gwledig**

**Eitem 3** *wedi'i gohirio*
**Cwestiynau i Andrew Davies, y Trefnydd ar ei gyfrifoldebau nad ydynt yn ymwneud â Busnes**

**10.34am**
**Dirprwyo swyddogaeth y Cynulliad Cenedlaethol yn adran 5(1) o Ddeddf Comisiynydd Plant Cymru 2001 i Brif Weinidog Cymru**

*Cynigiodd y Trefnydd gynnig trefniadol o dan Reol Sefydlog 6.16 i drafod y Cynnig heb Ddyddiad Trafod canlynol a gyflwynwyd ar 12 Gorffennaf 2001*

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig trefniadol:**

O blaid 46; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 46

**Derbyniwyd y cynnig trefniadol**

*NNDM772 Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol yn:*

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan adran 62(1)(b) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998, yn penderfynu dirprwyo swyddogaeth y Cynulliad Cenedlaethol yn adran 5(1) o Ddeddf Comisiynydd Plant Cymru 2001 i Brif Weinidog Cymru, y gellir ei gweld ar y rhyngrwyd yn:

http://www.hmso.gov.uk/acts/acts2001/10018--a.htm#5

ac eithrio'r rheini na ellir yn ôl cyfraith eu dirprwyo yn y modd hwnnw.

Ni fydd dim yn y cynnig hwn yn lleihau goruchafiaeth awdurdod y Cynulliad llawn, nac yn lleihau swyddogaeth Pwyllgorau'r Cynulliad wrth arfer y swyddogaethau uchod.

**Cynhaliwyd pleidlais:**

O blaid 46; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 46

**Derbyniwyd y cynnig**

**(i) Cymeradwyo Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru - TYNNWYD YN OL**

*NDM756 Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*
Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Mehefin 2001.

*NDM757 Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

1. yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw'n tynnu sylw'r Cynulliad at unrhyw fater yn arbennig o dan Reol Sefydlog 11.5, mewn perthynas â'r gorchymyn drafft, Rheoliadau Comisiynydd Plant Cymru 2001 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Gorffennaf 2001; ac

2. yn cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Mehefin 2001, yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Mehefin 2001 a'r Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Gorffennaf 2001.

**(ii) Gorchymyn Deddf Comisiynydd Plant Cymru 2001 (Cychwyn) 2001 - TYNNWYD YN OL**

*NDM758 Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Deddf Comisiynydd Plant Cymru 2001 (Cychwyn) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Mehefin 2001.

*NDM759 Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

1. yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw'n tynnu sylw'r Cynulliad at unrhyw fater yn arbennig o dan Reol Sefydlog 11.5, mewn perthynas â'r gorchymyn drafft, Gorchymyn Deddf Comisiynydd Plant Cymru 2001 (Cychwyn) 2001 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Gorffennaf 2001; ac

2. yn cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Mehefin 2001, yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Mehefin 2001 a'r Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Gorffennaf 2001.

**(iii) Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 7) (Cymru) 2001 - TYNNWYD YN OL**

*NDM760 Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 7) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Mehefin 2001.

*NDM761 Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

1. yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw’n tynnu sylw’r Cynulliad at unrhyw fater yn arbennig o dan Reol Sefydlog 11.5, mewn perthynas â’r gorchymyn drafft, Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 7) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Gorffennaf 2001; ac

2. yn cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â’r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Mehefin 2001, yr Arfarniad Rheoliadol a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Mehefin 2001 a’r Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Gorffennaf 2001.

**Cymeradwyo Gorchymyn Deddf Trafnidiaeth (2000) (Cychwyn) (Rhif 1) (Cymru) 2001 - TYNNWYD YN OL**

*NDM762 Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Deddf Trafnidiaeth (Cychwyn) (Rhif 1) (Cymru) 2001 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Mehefin 2001.

*NDM763 Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

1. yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw'n tynnu sylw'r Cynulliad at unrhyw fater yn arbennig o dan Reol Sefydlog 11.5, mewn perthynas â'r gorchymyn drafft, Gorchymyn Deddf Trafnidiaeth 2000 (Cychwyn) (Rhif 1) (Cymru) 2001 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Gorffennaf 2001; ac

2. yn cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 26 Mehefin 2001 a'r Adroddiad gan Bwyllgor yr Amgylchedd, Cynllunio a Thrafnidiaeth a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 14 Mehefin 2001.

**Cymeradwyo Gorchymyn Etholiadau Lleol (Cymru) 2001 TYNNWYD YN OL**

*NDM764 Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

Yn ystyried egwyddor Gorchymyn Etholiadau Llywodraeth Leol (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Mehefin 2001.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***

**1. William Graham (Dwyrain De Cymru);**

Ychwanegu paragraff newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi na chyfeiriodd y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau yr "ymgynghori am ddyddiad yr etholiadau llywodraeth leol nesaf yng Nghymru" at y dewisiadau a ganiateir o dan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 1999 na Deddf Llywodraeth Cymru 1998, Pennod 38, Rhan 1, Adran 3 (3) a (4).

**2. William Graham (Dwyrain De Cymru);**

Ychwanegu paragraff newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod ei bod yn ddyletswydd ar y Cynulliad hwn i annog cymaint o bobl â phosibl i gymryd rhan ym mhob etholiad a gynhelir yng Nghymru.

**3. William Graham (Dwyrain De Cymru);**

Ychwanegu paragraff newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cydnabod y bydd cynnal yr etholiadau ar gyfer Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yr Awdurdodau Unedol/Cynghorau Cymuned a Senedd Ewrop ar dri diwrnod gwahanol yn peri syrffed ymhlith yr etholwyr ac yn golygu y bydd yn anodd annog mwy o etholwyr i gymryd rhan yn yr etholiadau hyn.

**4. William Graham (Dwyrain De Cymru);**

Ychwanegu paragraff newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn condemnio'r ffaith y bydd mwy o darfu ar flwyddyn academaidd yr ysgolion sy'n cael eu defnyddio fel gorsafoedd pleidleisio, ac ar y TAS'au.

*NDM765 Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

1. yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw'n tynnu sylw'r Cynulliad at unrhyw fater yn arbennig o dan Reol Sefydlog 11.5, mewn perthynas â'r gorchymyn drafft, Gorchymyn Etholiadau Llywodraeth Leol (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Gorffennaf 2001; ac

2. yn cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Mehefin 2001 a'r Memorandwm Cywiriadau a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 9 Gorffennaf 2001.

**Cymeradwyo Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau Aelodau) (Diwygio) (Cymru) 2001 - TYNNWYD YN OL**

*NDM766 Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

Yn ystyried egwyddor Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau Aelodau) (Diwygio) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Mehefin 2001.

*NDM767 Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

1. yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Deddfau nad yw wedi nodi unrhyw faterion sy'n peri pryder o dan Reol Sefydlog 11.5 yn y gorchymyn drafft, Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau Aelodau) (Diwygio) (Cymru) 2001, a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 3 Gorffennaf 2001; ac

2. yn cymeradwyo bod y Gorchymyn yn cael ei wneud yn unol â'r drafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 19 Mehefin 2001.

**Dadl ar Araith Frenhines - TYNNWYD YN OL**

*NDM768 Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol:*

1. Yn nodi cynnwys rhaglen ddeddfwriaeth Llywodraeth y DU ar gyfer 2001-2002, fel y'i cynhwyswyd yn Araith y Frenhines, sydd ar gael yn

http://www.publications.parliament.uk/pa/ld199900/ldhansrd/pdvn/lds01/text/10620-01.htm#10620-01_head1

2. Yn nodi bod y Mesurau arfaethedig a ganlyn yn arbennig o berthnasol i gyfrifoldebau'r Cynulliad:

a. Mabwysiadu
b. Digartrefedd
c. Addysg
d. Diwygio'r NHS
e. Cofrestru Tir
f. Mesur Diogelwch Drafft

3. Yn ailgyfeirio'r Mesurau uchod i'r pwyllgorau pwnc perthnasol er mwyn ystyried ymhellach pa ddarpariaethau y dylent eu gwneud ar gyfer Cymru a sut y gallai'r Cynulliad ddefnyddio'r pwerau newydd a freinir iddo drwyddynt, ac yn gofyn i bob pwyllgor adrodd i'r Cynulliad erbyn 30 Tachwedd 2001.

4. Yn nodi hefyd y bwriad i gyhoeddi Mesur NHS (Cymru) a Mesur Cyfathrebu drafft, ac yn gofyn i'r pwyllgorau pwnc perthnasol ystyried y rhain o fewn y cyfnod ymgynghori a neilltuwyd ar eu cyfer ac adrodd i'r Cynulliad yn unol â hynny.

***Cyflwynwyd y gwelliannau canlynol:***

**1. Kirsty Williams (Brycheiniog a Sir Faesyfed);**

*Ychwanegu ar ddiwedd pwynt 1:*

"ond mae'n gresynu at:

a) y diffyg ymrwymiad i gyflwyno gofal personol yn ddi-dâl ar gyfer yr henoed
b) y diffyg ymrwymiad i gynnal refferendwm yn fuan ynghylch a ddylai Prydain ymuno ag arian sengl Ewrop
c) y diffyg ymrwymiad i ddiwygiadau democrataidd i Dy'r Arglwyddi
d) y diffyg ymrwymiad i gyflwyno deddfwriaeth i wireddu addewid y Llywodraeth i gyflwyno cynllun trwyddedu ar gyfer tai mewn aml-ddaliadaeth."

**2. William Graham (Dwyrain De Cymru);**

*Ar ôl "f. Mesur Diogelwch Drafft" ym mhwynt 2, rhoi:*

ac yn rhoi croeso arbennig i ddarpariaethau yn y Mesur Addysg sy'n golygu y gellir ehangu'n sylweddol ar nifer yr ysgolion ffydd, yr ysgolion arbenigol a'r ysgolion sy'n cael eu rhedeg ar y cyd â'r sectorau gwirfoddol ac annibynnol. Mae'r Cynulliad Cenedlaethol yn edrych ymlaen at weithredu'r polisïau addysg rhagorol hyn yng Nghymru cyn gynted ag y bo modd.

**3. William Graham (Dwyrain De Cymru);**

*Ar ddiwedd pwynt 2, ychwanegu:*

ac yn nodi datganiad y Prif Weinidog wrth ateb OAQ12467 ar 10 Gorffennaf 2001 yn rhagweld y bydd ysgolion arbenigol yn cael eu sefydlu yng Nghymru.

**4. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**

*Ym mhwynt bwled 3, ar ôl "drwyddynt", rhoi:*

"ac yn galw ar y Trefnydd i drefnu hyfforddiant priodol mewn ymdrin â mesurau drafft ar gyfer holl aelodau'r Cynulliad, a hynny ar fyrder,"

**5. William Graham (Dwyrain De Cymru);**

*Ar ddiwedd pwynt 3, ychwanegu:*

Er hynny, yr ydym yn gresynu nad yw Llywodraeth y DU wedi cytuno â chais y Cynulliad Cenedlaethol (a wnaed ar 13 Mawrth 2001) i Fesur gael ei gynnwys yn Araith y Frenhines i wneud Dydd Gwyl Ddewi yn wyl gyhoeddus yng Nghymru.

**6. William Graham (Dwyrain De Cymru);**

*Ychwanegu pwynt newydd ar ôl pwynt 3 ac ailrifo'r pwyntiau dilynol:*

Yn gofyn i Weinyddiaeth y Democratiaid Rhyddfrydol / Llafur, a Llywodraeth y DU, ystyried sicrhau bod Mesur yr NHS (Cymru) yn neilltuo o leiaf un lle trwy statud ar gyfer aelod i gynrychioli nyrsys ar bwyllgorau gweithredol y Partneriaethau Iechyd Lleol newydd.

**7. William Graham (Dwyrain De Cymru);**

*Ar ôl y pwynt olaf sydd wedi'i rifo, rhoi:*

Yn galw ar Lywodraeth y DU i sefydlu ym Mesur yr NHS (Cymru) asiantaeth hyd braich ar lefel Cymru gyfan a fyddai'n dwyn yr enw *'Lles Cymru'* ac y byddai ei swyddogaethau yn atal ymyrraeth wleidyddol amhriodol wrth ailgyflunio gwasanaethau neu wrth ffurfio unrhyw farn feddygol – materion y byddai'n fwy priodol i ymarferwyr meddygol ymdrin â hwy.

**8. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

'Yn gresynu at y ffaith nad oes unrhyw gynigion deddfwriaethol ar gyfer:

a) Gwneud Dydd Gwyl Ddewi yn Wyl y Banc yng Nghymru
b) Caniatáu i'r Cynulliad Cenedlaethol benderfynu ar fater blwch tic i nodi Cymreictod yn arolygon y cyfrifiad yn y dyfodol
c) Darparu systemau addysg, hyfforddiant a gyrfaoedd mwy cydlynol ar gyfer pobl o bob oed'

**9. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

'Yn gresynu at y ffaith nad oes unrhyw gynigion deddfwriaethol ar gyfer gwahardd hysbysebu tybaco ledled y DU.'

**10. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

'Yn gresynu at y ffaith nad yw Llywodraeth Cymru wedi mynd i'r afael ag anghydraddoldebau iechyd trwy wrthod pwyso ar Lywodraeth y DU i gyflwyno gofal personol yn ddi-dâl ar gyfer yr henoed.

**11. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

'Yn gresynu at gynigion Llywodraeth y DU i gyflwyno elfen breifat i'r gwasanaethau cyhoeddus yng Nghymru, yn arbennig ym meysydd iechyd ac addysg.'

**12. Jocelyn Davies (Dwyrain De Cymru);**

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

‘Yn galw am bwerau i’r Cynulliad Cenedlaethol lunio deddfwriaeth sylfaenol ac amrywio trethi.’

**13. William Graham (Dwyrain De Cymru);**
**Peter Rogers (Gogledd Cymru);**

*Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:*

Yn gresynu at fethiant Llywodraeth y DU i gyflwyno cynigion deddfwriaethol sydd â’r nod o fynd i’r afael â’r argyfwng yng nghefn gwlad.

**10.35am**
**Cymeradwyo cyllideb Swyddfa'r Llywydd o dan Reol Sefydlog 19.0 & 19.5A**
*NDM755*

Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan Reol Sefydlog 19.5A, yn cytuno â'r newid yn lefel yr adnoddau sydd wedi'u dyrannu i'r prif grwp gwariant sydd wedi'i sefydlu ar gyfer Swyddfa'r Llywydd a'i fabwysiadu ar gyfer 2001-2002 a, chan weithredu o dan Reol Sefydlog 19.00, yn mabwysiadu'r gyllideb ddrafft ar gyfer y Swyddfa ar gyfer 2002-2003 a'r dyraniadau dros dro ar gyfer y ddwy flynedd ddilynol fel y'u nodir yn Nhabl 1 y cynnig hwn a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Gorffennaf 2001.

**Cynhaliwyd Pleidlais:**

O blaid 46; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 46

**Derbyniwyd y cynnig**

**Dadl ar ymdrin â Chontract Canolfan y Mileniwm - TYNNWYD YN OL**

*NDM771 Cynnig bod y Cynulliad:*

1. Yn nodi â boddhad y cynnydd sylweddol y mae Canolfan Mileniwm Cymru wedi’i wneud o ran cyrraedd y cerrig milltir a bennwyd yn natganiad y Gweinidog dros Gyllid i’r Cyfarfod Llawn ar 5 Ebrill, yn arbennig:

a) y camau a gymerwyd i ail-lunio ac ychwanegu at y galluoedd a’r profiad sydd ar gael i’r Bwrdd a’i Bwyllgor Gweithredol er mwyn sicrhau bod y prosiect yn meddu ar yr hyn sy’n angenrheidiol i reoli’r gwaith adeiladu a’r camau dilynol yn effeithiol;

b) cadarnhad gan Gadeirydd y Pwyllgor Diwylliant fod y pwyllgor yn awr "yn fodlon bod y Cynllun Busnes yn gadarn" yn dilyn cyflwyniad llawn i’r Pwyllgor gan Ganolfan Mileniwm Cymru;

c) ymdrechion trylwyr y prosiect i sicrhau dull caffael a fydd yn pennu pris sefydlog ar gyfer y gwaith adeiladu.

2. Yn cadarnhau y bydd cymorth ariannol ar gael i Gwmni Canolfan Mileniwm Cymru yn unol â datganiad y Gweinidog dros Gyllid ar 5 Ebrill.

**10.36am**
**Adolygu Rheol Sefydlog 22**

*NDM769 Cynnig bod y Cynulliad Cenedlaethol, gan weithredu o dan adran 46(6) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998 a Rheol Sefydlog 34:*

(i) yn ystyried adroddiad y Pwyllgor Busnes a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 11 Gorffennaf 2001; ac

(ii) yn cymeradwyo’r diwygiadau a ganlyn i’r rheolau sefydlog;

**Rheol Sefydlog 22**

Ychwanegu adran newydd 22.29A:

"Bydd cynnig a gyflwynir o dan Reol Sefydlog 22.29 yn cael ei roi ar yr amserlen o dan Reol Sefydlog 5 i’w ystyried gan y Cynulliad o fewn y cyfnod o ddeugain diwrnod gwaith y cyfeirir ato yn y paragraff hwnnw; ond, os nad oes modd bodloni darpariaethau Rheol Sefydlog 5 o fewn y cyfnod hwnnw oherwydd na threfnwyd i’r Cynulliad gyfarfod, bydd y Prif Ysgrifennydd yn gofyn i’r Llywydd gynnull y Cynulliad i ystyried y cynnig ar ddiwrnod o fewn y cyfnod hwnnw, a bydd y Llywydd yn cydymffurfio â’r cais."

**Cynhaliwyd pleidlais**

O Blaid 47; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 47

**Derbyniwyd y cynnig â’r mwyafrif angenrheidiol o ddwy ran o dair**

**10.36am**
**Dadl Fer:**
*NDM770* **Ann Jones (Dyffryn Clwyd); Tai Amlbreswyliaeth**

*Cynigiodd Ann Jones Gynnig Trefniadol o dan Reol Sefydlog 6.10 i ohirio'r eitem hon*

**Cynhaliwyd pleidlais ar y cynnig trefniadol:**

O blaid 47; Ymatal 0; Yn erbyn 0; Cyfanswm 47

**Derbyniwyd y cynnig trefniadol**

**Daeth y cyfarfod i ben am 10.37am**

**************

**Toriad yr Haf o 20 Gorffennaf - 12 Hydref 2001**

**************

**Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am**

**2.00pm ddydd Mawrth, 16 Hydref 2001**

**E P Silk**

**Clerc y Cynulliad**

**Derbyniodd y Llywydd lythyr oddi wrth Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn dilyn marwolaeth Val Feld. Nodir y cynnwys isod:**

18 July 2001

To mark the sad and untimely death of Val Feld I understand that the Assembly will be marking her contribution in the Plenary session tomorrow. As Secretary of State for Wales and as a friend of Val's I wanted to share my thoughts with you.

As I am sure everyone will agree Val was a hard-working and conscientious AM for her Swansea East constituents. It is a great tribute to Val's commitment that the Assembly, for which she campaigned and which she served with such distinction, is now pressing ahead with so many of the issues which she championed.

Before her election to the Assembly, Val was the founder and first Director of Shelter Cymru and Director of the Equal Opportunities Commission in Wales. She was an outstanding campaigner - not least for devolution - on so many issues of vital importance to us in Wales. Whether her work was in the field of equal opportunities or housing or economic development, d was always motivated by her wish to improve the quality of life for the people of Wales.

I knew Val for a many years as a stalwart member of the Labour Party and I had the greatest respect for her contribution to the party and to Wales in general.

She will be greatly missed.

**Derbyniodd y Llywydd lythyr dyddiedig 19 Gorffennaf oddi wrth Hugh Henry ASA, Cynullydd Pwyllgor Ewropeaidd Senedd yr Alban, yn dilyn marwolaeth Val Feld. Nodir y cynnwys isod:**

It is with great sadness that I hear of the untimely death of Val Feld. I met Val during the launch of the informal European Chairs-UK Group, and her input to that meeting was invaluable. Moreover, her personality and warmth were key to ensuring that all the elected representatives present from Scotland, England, Northern Ireland and Wales became more than just working colleagues. I would be grateful if you could pass on my sincere condolences to her family and colleagues in the Assembly.

## DOGFENNAU A OSODWYD ERS Y CYFARFOD LLAWN DIWETHAF

## DOGFENNAU A GYFLWYNWYD AR 18 GORFFENNAF 2001

Meat Hygiene Service Annual Report and Accounts 2000/2001 - LD969 - Dim copi Cymraeg ar gael

## DOGFENNAU A GYFLWYNWYD AR 16 GORFFENNAF 2001

Y Cynllun Coetir Ffermydd A'r Cynllun Premiwm Coetir Ffermydd LD968